ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	**SLR-1025 – *Rheoliadau Gwasanaethau Plant o dan Gyfyngiad (Cymru) 2026***	
Swyddog(ion) sy'n cynnal yr Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	**Tom Cleaver, Neil Jones** **Yr Is-adran Galluogi Pobl**	
Adran:	**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**	
Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):	**Alistair Davey**	
Y Gweinidog Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:	**Delyth Jewell AS** **Y Dirprwy Weinidog dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl ac Iechyd Menywod**	
Dyddiad Dechrau:	**1 Ebrill 2027**	

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu cymryd a pham? 3

Adran 8. Casgliadau 8

ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN YSTYRIED EU CYMRYD A PHAM?

Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut yr ydych wedi cymhwyso / sut y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau gweithredu arfaethedig, drwy gydol y polisi a'r cylch cyflawni?

Mater

Ar 24 Mawrth 2025, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn gyfraith yng Nghymru. Mae Deddf 2025 yn cynnwys darpariaethau y bwriedir iddynt gyfyngu ar allu darparwyr i wneud elw o wasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel, a gwasanaethau maethu. Gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'wasanaethau plant o dan gyfyngiad'.

Bwriad y polisi yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn llety ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael ei dynnu allan fel elw, ond yn hytrach bod unrhyw warged yn cael ei ail-fuddsoddi yn ôl i'r system er mwyn helpu i wella canlyniadau, gwasanaethau, a datblygu proffesiynol.

Mae Deddf 2025 yn amlinellu cyfres o drefniadau – y daeth rhai ohonynt i rym ar 1 Ebrill 2026 – a fydd yn y pen draw yn cyfyngu ar ddarparu'r gwasanaethau hynny (ac eithrio pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol) i endidau 'nid-er-elw' sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

I fod yn endid 'nid-er-elw' cydnabyddedig, rhaid i ddarparwr:

a) fod ag amcanion neu ddibenion sy'n ymwneud yn bennaf â llesiant plant (neu unrhyw fudd cyhoeddus arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru); a

b) gweithredu o dan un o bedwar math o ymgymeriad:

- cwmni elusennol sy'n gyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau;
- sefydliad corfforedig elusennol;
- cymdeithas gofrestredig elusennol; neu
- gwmni buddiant cymunedol sy'n gyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau.

Er mwyn sicrhau nad yw'r polisi hwn yn cael ei danseilio gan arferion sy'n groes i'w ysbryd a'i fwriad, mae Deddf 2025 hefyd yn darparu y gall unrhyw daliadau afresymol neu anghymesur a wneir gan ddarparwr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad nid-er-elw gael eu cymryd i ystyriaeth gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu a yw darparwr yn berson addas a phriodol i gael ei gofrestru.

Y cam gweithredu a gynigir

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull fesul cam ar gyfer gweithredu dileu elw o ofal plant, drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn cefnogi sefydlogrwydd, integreiddio, a chynllunio systemau effeithiol.

Ar 1 Ebrill 2026, daeth cyfyngiadau i rym sy'n atal cartrefi plant, llety diogel, a gwasanaethau maethu newydd er-elw rhag cofrestru, ac yn atal darparwyr 'er-elw' presennol y gwasanaethau hyn rhag amrywio eu cofrestriad i ychwanegu gwasanaeth neu le newydd.

O 1 Ebrill 2026 ymlaen, daeth y ddyletswydd ddigonolrwydd ddiwygiedig o dan adran 75(1) o Ddeddf Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') i rym hefyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd *pob cam rhesymol* i sicrhau llety addas i blant sy'n derbyn gofal yn eu hardal; blaenoriaethu opsiynau o fewn eu hardal neu gerllaw i'w hardal; a defnyddio darparwyr awdurdodau lleol neu ddarparwyr nid-er-elw yn unig.

Erbyn 1 Rhagfyr 2026, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno eu cynlluniau digonolrwydd blynyddol cyntaf i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo, ac mae'n ofynnol cyhoeddi'r cynlluniau hyn erbyn 31 Mawrth 2027, ac yn flynyddol wedi hynny.

Bwriedir i fesurau pellach (sy'n destun yr asesiad effaith hwn) ddod i rym o 1 Ebrill 2027 i atal cartrefi plant er-elw presennol rhag ehangu, ac atal darparwyr gwasanaethau maethu er-elw rhag cymeradwyo gofalwyr maeth newydd.

O 1 Ebrill 2030 ymlaen, bwriedir sicrhau mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd plant yn cael eu lleoli gyda darparwyr er-elw, a hynny'n amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno newidiadau rheoleiddiol o dan *Reoliadau Gwasanaethau Plant o dan Gyfyngiad (2026)* (“*y rheoliadau arfaethedig*”). Nod y rhain yw atal twf pellach yn y ddarpariaeth er-elw, tra bod diwygiadau ehangach i wasanaethau gofal a chymorth plant yn cael eu gweithredu.

Mae'r rheoliadau arfaethedig hyn yn cefnogi ymrwymiad statudol Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd drwy Ddeddf 2025, i alluogi trosglwyddo i fodel gofal nid-er-elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Bwriad cyflwyno'r cyfyngiadau hyn yn ystod y cam hwn yw sefydlogi'r farchnad gofal bresennol, ac osgoi ymwreiddio ymhellach gan y ddarpariaeth er-elw yn ystod y cyfnod pontio (y bwriedir iddo fod ar waith tan Ebrill 2030).

Byddai'r rheoliadau arfaethedig yn cyflwyno cyfyngiadau ar ddarparwyr gwasanaethau plant er-elw presennol. Yn benodol, byddai'r rheoliadau'n darparu, o 1 Ebrill 2027 ymlaen:

- na cheir ychwanegu gwelyau ychwanegol at gartrefi plant er-elw presennol; ac
- na chaiff unrhyw ofalwyr maeth newydd eu cymeradwyo gan ddarparwyr gwasanaethau maethu er-elw presennol.

Mae'r cyfyngiadau hyn yn ddarpar eu natur a byddent yn berthnasol i ehangu yn y dyfodol yn unig. Ni fyddent:

- yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr er-elw presennol roi'r gorau i weithredu;
- yn effeithio ar leoliadau presennol neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd;
- yn effeithio ar ofalwyr maeth sydd eisoes wedi'u cymeradwyo gan wasanaethau maethu er-elw;
- yn lleihau capasiti cofrestredig presennol cartrefi plant neu gapasiti cymeradwy gwasanaethau maethu.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai ehangu parhaus gan wasanaethau plant er-elw danseilio effeithiolrwydd gweithredu'r diwygiadau a gyflwynwyd drwy Ddeddf 2025. Gallai ehangu'r farchnad er-elw ymhellach ei gwneud hi'n anoddach i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd ddigonolrwydd a chynllunio, comisiynu, a datblygu darpariaeth nid-er-elw gynaliadwy yn eu hardaloedd.

Sut mae'r pum ffordd o weithio, a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn cael eu cymhwyso i'r camau gweithredu arfaethedig, a hynny drwy gydol y polisi a'r cylch cyflawni?

Y tymor hir

Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu elw o ofal plant yn adlewyrchu gweledigaeth hirdymor ar gyfer gofal sy'n gynaliadwy a theg. Drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr weithredu ar sail nid-er-elw, nod y polisi yw sicrhau bod adnoddau'n cael eu hailfuddsoddi i wella canlyniadau i blant yn hytrach na chael eu dosbarthu fel elw. Mae hyn yn cyd-fynd â'r nod hirdymor o greu system gofal sefydlog sy'n blaenoriaethu llesiant yn hytrach nag elw ariannol. Mae'r newidiadau deddfwriaethol penodol a gynigir yn y rheoliadau wedi'u cynllunio i ymgorffori'r egwyddorion hyn yn y fframwaith rheoleiddio dros y tymor hir.

Atal

Nod y polisi dileu elw yn ehangach yw ceisio atal risgiau sy'n gysylltiedig â gofal sy'n cael ei ysgogi gan elw, megis ansefydlogrwydd posibl mewn lleoliadau oherwydd penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan y farchnad a chostau cynyddol. Drwy ei gwneud yn orfodol i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad fod yn endidau nid-er-elw, mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael yn rhagweithiol ag effeithiau negyddol posibl ar blant sy'n agored i niwed.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai ehangu parhaus gan wasanaethau plant er-elw danseilio effeithiolrwydd gweithredu'r diwygiadau a gyflwynwyd drwy Ddeddf 2025. Gallai ehangu'r farchnad er-elw ymhellach ei gwneud hi'n anoddach i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd ddigonolrwydd a chynllunio, comisiynu, a datblygu darpariaeth nid-er-elw gynaliadwy yn eu hardaloedd. Felly, bwriad y mesurau yn y rheoliadau arfaethedig yw atal yr amodau hyn rhag digwydd.

Integreiddio

Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu elw o ofal plant yn adlewyrchu gweledigaeth hirdymor ar gyfer gofal sy'n gynaliadwy a theg. Drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr weithredu ar sail nid-er-elw, nod y polisi yw sicrhau bod adnoddau'n cael eu hailfuddsoddi i wella canlyniadau i blant yn hytrach na chael eu dosbarthu fel elw. Mae hyn yn cyd-fynd â'r nod hirdymor o greu system gofal sefydlog sy'n blaenoriaethu llesiant yn hytrach nag elw ariannol.

Dangosir effeithiolrwydd integreiddio trwy aliniad cydgysylltiedig ar draws goruchwyliaeth reoleiddiol, trefniadau comisiynu, a'r ddarpariaeth o wasanaethau. Mae prosesau goruchwylio Arolygiaeth Gofal Cymru, prosesau cynllunio digonolrwydd awdurdodau lleol, a phrosesau pontio darparwyr wedi'u cynllunio i weithredu mewn modd cydlynus, gan ddarparu sicrwydd rheoleiddio, a sicrhau bod capasiti lleoli a sefydlogrwydd y farchnad yn cael eu cynnal ar yr un pryd. Mae'r dull gweithredu cydgysylltiedig hwn yn cydnabod y rhyng-ddibyniaeth rhwng yr elfennau hyn, ac yn cefnogi ymateb cyson system gyfan i'r trawsnewid.

Bydd y rheoliadau arfaethedig yn atgyfnerthu ac yn galluogi gweithgarwch diwygio ehangach, gan gynnwys datblygu sylfaen o ddarparwyr nid-er-elw, cryfhau comisiynu ar lefel leol a rhanbarthol, ac ymdrechion i wella canlyniadau i blant â phrofiad o fod mewn gofal trwy sefydlogrwydd a chefnogaeth gynnar. Trwy leihau cyfyngiadau yn ystod trawsnewidiadau darparwyr, mae'n sicrhau y gall y diwygiadau hyn symud yn eu blaen mewn ffordd ategol sy'n atgyfnerthu ei gilydd, tra eu bod ar yr un pryd yn helpu i wella canlyniadau ar draws meysydd polisi cysylltiedig megis iechyd, addysg, a chydlyniant cymunedol.

Cydweithio a chyfranogi

Cafodd y rheoliadau arfaethedig eu datblygu trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys:

- Gofalwyr maeth a rhwydweithiau
- Darparwyr (er-elw ac nid-er-elw)
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Awdurdodau Lleol
- Cyrff sy'n cynrychioli'r sector

Bydd y gwaith cyflawni yn parhau i ddibynnu ar gydweithio rhwng darparwyr, Arolygiaeth Gofal Cymru, ac awdurdodau lleol i reoli trawsnewid, sicrhau cydymffurfiaeth, a chynnal sefydlogrwydd lleoliadau.

Effaith

Mae'r rheoliadau arfaethedig yn darparu manteision clir. Eu bwriad yw:

- sefydlogi tirwedd bresennol y ddarpariaeth gwasanaethau plant;
- atal gwasanaethau er-elw rhag ehangu ymhellach yn ystod y cyfnod pontio;
- cefnogi awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer darpariaeth nid-er-elw ddigonol; a
- sicrhau bod cyllid cyhoeddus a chapasiti'r system yn canolbwyntio ar wella canlyniadau a sefydlogrwydd i blant a phobl ifanc.

Mae risgiau'n cynnwys effaith bosibl ar ddigonolrwydd os nad yw darparwyr yn gallu ehangu eu gwasanaethau ac nad yw awdurdodau lleol yn gallu gweithredu'r diwygiadau sydd eu hangen i'r system ehangach mewn modd amserol.

Bydd y rhain yn cael eu lliniaru drwy gyllid a goruchwylio parhaus gan Lywodraeth Cymru o ran cynllunio digonolrwydd awdurdodau lleol a defnyddio dull cydweithredol ar gyfer gweithredu mewn modd sy'n cynnwys yr holl bartneriaid perthnasol.

ADRAN 8. CASGLIADAU

(Sylwer: bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

8.1 Sut mae'r bobl, y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt, wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Wrth ddatblygu'r rheoliadau arfaethedig, cynhelir gweithgarwch ymgysylltu helaeth gyda'r rheini y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn cael ei gynnal, gan wahodd ymatebion oddi wrth amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys gofalwyr maeth, darparwyr (er-elw ac nid-er-elw), awdurdodau lleol, Arolygiaeth Gofal Cymru, a chyrff cynrychiadol.

Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio barn gan sefydliadau sy'n cynrychioli plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys grwpiau eiriolaeth a Chomisiynydd Plant Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynnig yn adlewyrchu blaenoriaethau plant, yn enwedig o ran sefydlogrwydd, parhad, a'r angen i gynnal cysylltiadau dibynadwy.

Nod yr ymgynghoriad fydd casglu sylwadau gan sefydliadau perthnasol a grwpiau cynrychiadol er mwyn nodi effeithiau posibl ar blant a gofalwyr o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a siaradwyr Cymraeg. Bydd hynny'n helpu i sicrhau bod y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb; yn osgoi rhwystrau anfwriadol; ac yn ystyried anghenion y Gymraeg.

Mae Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw a'i ffrydiau gwaith cysylltiedig yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r sectorau perthnasol, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau preswyl a maethu plant cyhoeddus, nid-er-elw, ac er-elw. Mae Bwrdd y Rhaglen wedi cael gwybod am y gwaith hwn wrth i'r gwaith fynd rhagddo, ac mae wedi darparu mewnbwn yn ystod camau allweddol. Bydd yn parhau i gyfrannu wrth i'r polisi ddatblygu, gyda chyfleoedd i aelodau gynnig adborth a llywio gwaith gweithredu ac adolygu parhaus.

Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i fireinio'r cynnig, a bydd yn parhau i lywio'r gwaith gweithredu, monitro, ac adolygu.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

O ystyried eu natur dechnegol, disgwylir mai cyfyngedig fydd effaith y rheoliadau arfaethedig ar bobl, diwylliant a'r iaith Gymraeg, yr economi, a'r amgylchedd yng Nghymru.

Mae'r rheoliadau arfaethedig yn cefnogi ymrwymiad statudol Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd drwy Ddeddf 2025, i alluogi trosglwyddo i fodel gofal nid-er-elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Bwriad cyflwyno'r cyfyngiadau hyn yn ystod y cam hwn yw sefydlogi'r farchnad gofal bresennol, ac osgoi ymwreiddio ymhellach gan y ddarpariaeth er-elw yn ystod y cyfnod pontio (y bwriedir iddo fod ar waith tan Ebrill 2030).

Mae'r cynigion yn darparu manteision clir. Byddant yn gwneud y canlynol:

- sefydlogi tirwedd bresennol y ddarpariaeth gwasanaethau plant;
- atal gwasanaethau er-elw rhag ehangu ymhellach yn ystod y cyfnod pontio;
- cefnogi awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer darpariaeth ddigonol nid-er-elw; a
- sicrhau bod cyllid cyhoeddus a chapasiti'r system yn canolbwyntio ar wella canlyniadau a sefydlogrwydd i blant a phobl ifanc.

Gallai fod effaith bosibl ar ddigonolrwydd os nad yw darparwyr yn gallu ehangu eu gwasanaethau ac nad yw awdurdodau lleol yn gallu gweithredu'r diwygiadau angenrheidiol i'r system yn ehangach mewn ffordd amserol. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei liniaru drwy gyllid a goruchwylio parhaus gan Lywodraeth Cymru o ran cynllunio digonolrwydd awdurdodau lleol a dull o gydweithredu sy'n cynnwys yr holl bartneriaid perthnasol.

I grynhoi, disgwylir i effeithiau'r rheoliadau fod yn gyfyngedig o ran eu heffaith ar bobl, diwylliant, y Gymraeg, yr economi, a'r amgylchedd. Rhagwelir mai bach iawn fydd unrhyw effeithiau negyddol posibl, ac y gellir eu rheoli trwy'r canllawiau a'r gefnogaeth barhaus a gynllunnir.

8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

O ystyried bod y newidiadau yn y rheoliadau arfaethedig yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud â phrosesau sy'n bodoli eisoes, ni ragwelir y byddant yn effeithio'n sylweddol ar y saith nod llesiant. Fodd bynnag, nodir effeithiau posibl isod, mewn rhai achosion sy'n gysylltiedig â'r polisi dileu elw ehangach:

- **Cymru Ffyniannus** – Mae'r sicrwydd sy'n deillio o amserlen ar gyfer cychwyn y cyfyngiadau yn cefnogi'r bwriad polisi sylfaenol y tu ôl i Ddeddf 2025 a'i gweithredu. Mae'n cefnogi gwaith Arolygiaeth Gofal Cymru o ran monitro a gorfodi trefniadau newydd, gan eu bod yn sicrhau mai dim ond darparwyr nid-er-elw a fydd yn gallu ehangu eu darpariaeth bresennol o wasanaethau plant o dan gyfyngiad yn y dyfodol. Mae'r sicrwydd hefyd yn cryfhau cynllunio hirdymor a'r defnydd effeithiol o arian cyhoeddus, trwy roi data cliriach i awdurdodau lleol ar ofynion digonolrwydd. Mae'r rheoliadau arfaethedig felly'n darparu sail i wella gwasanaethau a datblygiad y gweithlu, gan gryfhau'r economi gofal cymdeithasol, gyda llai o arian yn cael ei dynnu fel elw.

- **Cymru Gydnerth** – Bydd y trefniadau'n atal unrhyw ymdrechion i osgoi'r polisi dileu elw ac unrhyw ymgais "ehangu munud olaf" gan ddarpariaeth er-elw cyn y dyddiad cau ar 1 Ebrill 2030. Bydd hynny'n golygu na ellir rhoi plant yng ngofal darparwr gwasanaeth 'er-elw', ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer digon o ddarpariaeth nid-er-elw i ddiwallu anghenion a nodwyd, a byddant yn gallu ymgymryd â'u paratoadau gyda mwy o sicrwydd. Fel y soniwyd uchod, mae'r rheoliadau arfaethedig yn cefnogi'r bwriad polisi

trosfwaol, a thrwy hynny maent yn cefnogi proses fonitro a gorfodi gadarn a thryloyw ar gyfer y polisi dileu elw.

- **Cymru Iachach** – Byddai darparwyr er-elw yn parhau i weithredu o fewn eu capasiti cofrestredig presennol, gan sicrhau nad oes tarfu ar leoliadau presennol. Trwy gyfyngu ar ehangu pellach gan y gwasanaethau hynny, ond caniatáu i wasanaethau nid-er-elw ehangu, mae'r trefniadau arfaethedig yn cefnogi gweithredu effeithiol o ran amcanion polisi dileu elw ehangach. Bydd awdurdodau lleol yn gallu cynllunio gyda mwy o sicrwydd, a gallant ystyried unrhyw gwmpas ar gyfer modelau gofal cefnogol sy'n cefnogi iechyd a llesiant plentyn yn gynharach, yn hytrach na rheoli risgiau a fyddai'n codi o fodolaeth ddarparwyr er-elw yn y sector. Trwy ategu'r bwriad polisi ehangach, bydd y trefniadau arfaethedig yn hyrwyddo'r modelau gofal a chymorth sy'n cyfeirio unrhyw arian dros ben tuag at wella gwasanaethau a datblygu'r gweithlu, gan gefnogi lleoliadau sy'n nes at adref sy'n blaenoriaethu llesiant plant, parhad cefnogaeth, a sefydlogrwydd - ffactorau sy'n gysylltiedig â gwell canlyniadau iechyd.

- **Cymru Fwy Cyfartal** – Mae'r cyfyngiadau arfaethedig yn cefnogi'r nodau polisi ehangach o ganolbwyntio cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol plant ar yr angen yn hytrach na'r cymhelliant i wneud elw, gan gefnogi mynediad tecach at ofal o safon a chryfhau atebolrwydd am ganlyniadau.

- **Cymru o Gymunedau Cydlynus** – Bydd y cyfyngiadau arfaethedig yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r polisi dileu elw ehangach yn effeithiol, ynghyd â'r paratoadau a'r gweithgarwch cynllunio ar lefel leol. Mae cyfyngu ar allu gwasanaethau er-elw i ehangu yn helpu i greu darpariaeth nid-er-elw lleol yn y gymuned. Mae'n lleihau dibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r ardal, gan helpu plant i aros yn agos at eu rhwydweithiau cymorth, atgyfnerthu cymunedau diogel, cefnogol, a gwydn.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Bydd y cyfyngiadau arfaethedig yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r polisi dileu elw ehangach mewn modd effeithiol, a fydd yn annog gwasanaethau nid-er-elw sydd wedi ymwreiddio'n lleol, ac a all fod mewn sefyllfa well i adlewyrchu hunaniaethau cymunedol, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg ac anghenion diwylliannol.

- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** - Bydd y cyfyngiadau arfaethedig yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r polisi dileu elw ehangach yn effeithiol. Bydd hyn yn cefnogi mwy o ail-fuddsoddi tryloyw a lleol, gan alinio ag egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ogystal ag alinio â mwy o leoliadau lleol a all leihau teithio ac allyriadau cysylltiedig.

8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Bydd effaith y rheoliadau arfaethedig yn cael ei monitro'n agos. Mae swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd â phartneriaid ar draws y sector i gael gwybodaeth am y farchnad, gan gynnwys ymgysylltu'n rheolaidd ag Arolygiaeth Gofal Cymru, a defnyddio'r corff o waith cenedlaethol a wneir drwy Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw.

O ran gwerthuso ehangach, disgwylir i'r polisi dileu elw cyffredinol fod yn destun gwerthusiad ffurfiol yn ystod y blynyddoedd nesaf.